**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Addysg Uwch ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) 2024. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Lynne Neagle AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**15 Ebrill 2024**

**Rhan 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) 2024 ("Rheoliadau 2024") yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019").

1.2 Mae Rheoliadau 2024 yn diwygio Rheoliadau 2019 i ddileu'r grant sylfaenol a'r grant cyfrannu at gostau o'r pecyn cymorth Graddau Meistr ôl-raddedig, a chynyddu uchafswm y cymorth sydd ar gael, yn unol â pholisi sefydledig. Bydd Rheoliadau 2024 hefyd yn dileu darpariaethau diangen sy'n ymwneud â chymorth i fyfyrwyr gofal cymdeithasol ôl-raddedig.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae Rheoliadau 2024 yn cael eu gwneud o dan adrannau 22(1)(a), (2)(a), (b), (c) ac (i) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ('Deddf 1998').

3.2 Mae adran 22 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol talu cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch neu addysg bellach a ddynodir gan neu o dan y rheoliadau hynny. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, ymhlith pethau eraill, swm y cymorth ariannol (grant neu fenthyciad) a phwy sy'n gymwys i gael y cymorth hwnnw.

3.3 Mae adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ('Deddf 2004') yn darparu ar gyfer trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf 1998 (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adrannau (2)(a), (c), (j) neu (k), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22) o ran Cymru. Mae adran 44 o Ddeddf 2004 hefyd yn darparu bod swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a), (c) a (k) o Ddeddf 1998 yn arferadwy'n gydredol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru.

3.4 Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 42(6) o Ddeddf 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

3.5 Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

3.6 Bob blwyddyn, dirprwyir nifer o swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn rheoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 1998 i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr o dan adran 23 o Ddeddf 1998.

3.7 Bydd yr offeryn hwn yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

4.1 Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau i ddarparu'r sail ar gyfer system y cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru, a rhai myfyrwyr eraill sy'n astudio yng Nghymru, sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig yn y Deyrnas Unedig.

*Darparu cymorth*

4.2 Mae'r cymorth y darperir ar ei gyfer gan Reoliadau 2019 yn cynnwys benthyciadau a grantiau. Mae'n gyfraniad at gostau. Mae dwy elfen i'r grantiau: grant sylfaenol cyffredinol o £1,000, a grant cyfrannu at gostau o hyd at £5,885 sy'n seiliedig ar brawf modd..

4.3 Mae Rheoliadau 2024 yn diwygio Rheoliadau 2019 i:

- ddileu'r grant sylfaenol a'r grant cyfrannu at gostau o'r pecyn cymorth. Bydd y grantiau'n cael eu disodli gan fenthyciad (hyd at uchafswm gwerth y cymorth) i wrthbwyso'r gwahaniaeth; a

- cynyddu'r uchafswm gwerth y cymorth trwy fesur o chwyddiant (RPIX). Bydd cyfanswm y cymorth yn codi 0.9% i £18,950; trwy gynyddu swm y benthyciad.

4.4 Bydd y diwygiadau i'r cymorth grant a'r uchafswm gwerth y cymorth yn berthnasol i fyfyrwyr gradd Meistr ôl-raddedig newydd sy'n dechrau cwrs ar neu ar ôl 01 Awst 2024. Mae'r cymorth fesul cwrs yn hytrach na phob blwyddyn academaidd ac felly mae'r cynnydd yn berthnasol i fyfyrwyr newydd yn unig.

*Dileu darpariaethau gofal cymdeithasol ôl-raddedig diangen*

4.5 Ar hyn o bryd mae Rheoliadau 2019 yn darparu trefniadau ar gyfer swm y benthyciad sy'n daladwy i fyfyriwr sydd wedi cael dyfarniad ariannol ("bwrsariaeth gofal cymdeithasol") a dalwyd neu a roddwyd iddo gan Gofal Cymdeithasol Cymru, o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, mewn cysylltiad ag astudio ar gyfer gradd Meistr ôl-raddedig mewn Gwaith Cymdeithasol. Ni all y trefniadau hyn ond dod i rym os yw'r dyfarniad yn llai nag uchafswm y cymorth sy'n daladwy o dan Reoliadau 2019. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r fwrsariaeth gofal cymdeithasol wedi cynyddu i £25,430, sy'n golygu bod y fwrsariaeth gofal cymdeithasol yn fwy na'r uchafswm sy'n daladwy o dan Reoliadau 2019. Gwneir diwygiadau i ddileu'r darpariaethau diangen hyn.

**5. Ymgynghori**

5.1 Nid oes gofyniad statudol i ymgynghori ar reoliadau cymorth i fyfyrwyr ac ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad mewn perthynas â newidiadau i gymorth ar gyfer astudio gradd Meistr ôl-raddedig. Trafodwyd y cynnig gyda nifer o randdeiliaid allweddol gan gynnwys Prifysgolion Cymru, UCM Cymru a chynrychiolwyr y sector.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6.1 Cynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Rheoliadau 2024.

6.2 Mae'r pecyn cymorth ar gyfer gradd Meistr ôl-raddedig yn cynnwys benthyciadau a grantiau. Mae'n gyfraniad at gostau astudio a chostau eraill, sydd wedi'i gynllunio i helpu'r rhai sy'n ystyried buddsoddi mewn addysg gradd Meistr ôl-raddedig. Rhaid i fyfyrwyr sicrhau bod ganddynt ddigon o arian i dalu eu holl gostau.

6.3 Mae dwy elfen i grantiau: grant sylfaenol cyffredinol o £1,000, a grant cyfrannu at gostau o hyd at £5,885 sy'n seiliedig ar brawf modd. Mae'r grantiau hyn wedi'u dileu yn sgil pwysau sylweddol ar gyllidebau Llywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Mae angen gwneud arbedion. Mae angen gwneud newidiadau cyn blwyddyn academaidd 2024/25 oherwydd y pwysau penodol ar y gyllideb eleni.

6.4 Cafodd yr opsiynau ar gyfer cymorth i fyfyrwyr gradd Meistr ôl-raddedig ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25 eu hystyried yn erbyn yr angen hwn i ailstrwythuro cyllidebau Llywodraeth Cymru, yng ngoleuni'r pwysau cyllidebol sylweddol. Yn ogystal, mae pwysau chwyddiant parhaus yn effeithio ar gostau byw i fyfyrwyr. Yr opsiynau oedd:

a) Gostwng terfyn uchaf y band asesu incwm. Mae grant ar gael ar sail prawf modd i'r rhai sydd ag incwm aelwyd o £18,370 neu lai. Nid oes gan y rhai sydd ag incwm aelwyd o £59,200 neu fwy hawl i grant prawf modd. Bydd y rhai sydd ag incwm rhwng y ddau bwynt hyn yn gweld gostyngiad o £1 am bob £6.937 o incwm yr aelwyd sy'n fwy na £18,370. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn creu digon o arbedion ac felly cafodd ei ddiystyru.

b) Lleihau swm y grant cyfrannu at gostau a delir. Mae grant cyfrannu at gostau o hyd at £5,885 ar gael sy'n seiliedig ar brawf modd. Fel y nodir yn a), mae gwerth y grant prawf modd sydd ar gael yn dibynnu ar incwm aelwyd y myfyriwr. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn creu digon o arbedion ac felly cafodd ei ddiystyru..

c) Lleihau swm y grant sylfaenol a delir. Mae grant sylfaenol o £1,000 nad yw'n seiliedig ar brawf modd ar gael i bob myfyriwr gradd Meistr ôl-raddedig cymwys.. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn creu digon o arbedion ac felly cafodd ei ddiystyru.

d) Dileu'r hawlogaeth i gael grant yn gyfan gwbl. O'i gymharu â'r polisi presennol, byddai myfyriwr yn colli isafswm o £1,000 ac uchafswm o £6,885 mewn cymorth grant. Byddai hyn yn lleihau gwerth y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr gradd Meistr ôl-raddedig newydd yn sylweddol o'i gymharu â'u cyfoedion o garfanau blaenorol, a byddai'n effeithio'n anghymesur ar y myfyrwyr hynny yr oedd y grantiau hyn wedi'u bwriadu'n bennaf ar eu cyfer,

h.y., aelwydydd incwm isel i ganolig, yn enwedig ar adeg o bwysau chwyddiant parhaus. Diystyriwyd yr opsiwn hwn.

e) Dileu'r hawlogaeth i'r grant a chynnig benthyciad yn ei le. Er y byddai'r cymorth grant (fel y'i disgrifir yn d)) yn cael ei ddileu, byddai cynnig benthyciad yn gwrthbwyso'r gostyngiad yn y cymorth y byddai myfyrwyr yn ei wynebu fel arall. Dyma'r opsiwn a ddewiswyd.

f) Cynyddu uchafswm y cymorth yn unol â pholisi sefydledig Mae uchafswm y cymorth yn cynyddu bob blwyddyn yn ôl amcangyfrif ochwyddiant prisiau a ragwelir, fel y'i mesurir gan yr RPIX. Oherwydd natur y broses ddeddfwriaethol, mae angen defnyddio rhagolwg o RPIX o fis Mawrth y flwyddyn cyn i'r flwyddyn academaidd ddechrau. Felly, ar gyfer gwerthoedd ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25, defnyddir cyfradd o 0.9%, gan mai dyna oedd y rhagolwg ym mis Mawrth 2023. Dewiswyd yr opsiwn hwn hefyd.

## 7. Opsiynau

*Opsiwn 1: Busnes fel arfer*

7.1 6.1 Os na wneir Rheoliadau 2024, byddai'r goblygiadau fel a ganlyn:

- Efallai y bydd effaith ar gynaliadwyedd ariannol y system cymorth i fyfyrwyr. gall galwadau i'r Llywodraeth am ailwampio'r system cyllid myfyrwyr neu gyllid uniongyrchol ddwysáu.

- byddai'n anoddach diogelu grantiau i'r rhai sy'n ymgymryd ag addysg uwch am y tro cyntaf drwy astudiaethau israddedig, sy'n un o nodau polisi allweddol Gweinidogion Cymru.

- ni fydd gwerth ariannol cymorth cyfrannu at gostau yn cynyddu er gwaethaf pwysau chwyddiant parhaus.

*Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau*

7.2 Mae gwneud Rheoliadau 2024 yn sicrhau bod y goblygiadau a amlinellir uchod yn cael eu hosgoi. Dyma’r opsiwn a ffefrir.

## 8. Costau a manteision

*Opsiwn 1: Busnes fel arfer*

8.1 Byddai gadael y rheoliadau presennol ar waith yn golygu na fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo drwy'r system cymorth i fyfyrwyr. Fodd bynnag, efallai y byddai'n effeithio ar gynaliadwyedd ariannol y system

cyllid myfyrwyr. Byddai myfyrwyr yn dwyn cost unrhyw ostyngiad gwirioneddol drwy werth y cymorth i fyfyrwyr y byddent yn eu cael.

*Opsiwn 2: Gwneud Rheoliadau 2024*

8.2 Drwy wneud Rheoliadau 2024, mae Gweinidogion Cymru yn sicrhau bod system cymorth i fyfyrwyr Cymru yn cael ei hategu gan fframwaith cyfreithiol priodol, a bod polisi'n cael ei weithredu'n effeithiol.

8.3 Bydd myfyrwyr gradd Meistr ôl-raddedig newydd yn elwa ar gynnydd yn eu cymorth ôl-raddedig, sy'n gysylltiedig â'r amcangyfrif a ragwelir o RPIX. Bydd hyn yn cynyddu uchafswm gwerth y cymorth 0.9% yn y flwyddyn academaidd 2024/25. Felly, bydd cyfradd y cymorth ar gyfer graddau Meistr ôl-raddedig yn cynyddu o £18,770 ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 i £18,950 ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25.

8.4 Bydd y newid hwn yn effeithio ar bob myfyriwr newydd sy'n dechrau cwrs ym mlwyddyn academaidd 2024/25. O gymharu â'r polisi presennol, bydd myfyriwr yn colli isafswm o £1,000 ac uchafswm o £6,885 mewn cymorth grant ond gall wneud cais am fenthyciad uwch. Felly, mae dyled myfyriwr yn debygol o gynyddu. Gallai hyn atal rhai darpar fyfyrwyr rhag ymgymryd â chwrs ôl-raddedig – effaith datgymhellol. Nid yw'n bosibl meintioli'r effaith hon. Fodd bynnag, bydd disodli grantiau gyda benthyciadau yn golygu na fydd myfyrwyr newydd yn colli unrhyw incwm wrth astudio o'i gymharu â charfannau blaenorol, gan leihau'r effaith datgymhellol. Yn ogystal, effaith lliniaru polisi Cymru mewn perthynas â chymorth i fyfyrwyr grant Meistr ôl-raddedig yn fwy cyffredinol, yw bod Gweinidogion Cymru yn darparu cymorth llawer mwy hael i fyfyrwyr o gymharu â'u cyfoedion yn Lloegr. Mae asesiad effaith wedi'i lunio a bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

8.5 Mae benthyciadau myfyrwyr yn cael eu diffinio fel Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) gan fod gwariant yn cael ei arwain gan alw, yn gyfnewidiol ac mor fawr fel na ellir ei amsugno o fewn y Terfyn Gwariant Adrannol arferol. Bydd y newid i gymorth ar gyfer graddau Meistr ôl-raddedig yn cynyddu'r AME o'r £67.9m a ragwelwyd i £83.5m, ond bydd y costau cymorth cyffredinol ar gyfer graddau Meistr ôl-raddedig ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25 yn aros yr un fath â'r hyn a ragwelwyd (£88.5m). Bydd dileu hawlogaeth i gael grant yn creu arbedion ariannol o £15.6m ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25 o fewn y BEL Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr.

8.6 Mae'r costau sy'n codi o ddileu'r hawlogaeth i gael grant o'r cymorth ar gyfer graddau Meistr ôl-raddedig, gwrthbwyso'r gwahaniaeth gyda benthyciad a

chynyddu'r gyfradd gymorth gyffredinol yn unol â pholisi sefydledig wedi'u nodi yn y tabl canlynol:

| Cyfanswm y costau[a] | | | |
|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y costau ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25 | Cyfanswm y costau wedi'u rhannu yn ôl blwyddyn ariannol | |
| | | BA 2024/25 | BA 2025/26 |
| Bron yn arian parod | £5.0m | -£3.3m | £1.7m |
| AME | £83.5m | £55.1m | £28.4m |
| Nad yw'n arian parod (RAB) | £0.0m | £0.0m | £0.0m |
| Is-gyfanswm | £88.5m | £58.4m | £30.1m |

Nodiadau
(a) Mae cyfanswm y costau'n cynnwys cael gwared ar yr hawlogaeth i gael grant, disodli'r gwahaniaeth gyda benthyciad, ac yn defnyddio RPIX i godi cyfradd cymorth gyffredinol, fel mewn blynyddoedd blaenorol.

*Costau i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr*

8.7 Bydd angen i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr weithredu newidiadau i'w systemau ymgeisio ac asesu, a'u gwybodaeth a'u canllawiau ar gyfer cwsmeriaid. Oherwydd maint y newid sydd ei angen, mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr wedi amcangyfrif bod angen £820k i gwblhau'r gwaith hwn mewn pryd i lansio'r cyfnod ymgeisio ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25. Disgwylir i £401k gael ei ysgwyddo ym mlwyddyn ariannol 2023/24 a'r gweddill ym mlwyddyn ariannol 2024-25.

## 9. Asesu'r gystadleuaeth

9.1 Nid yw gwneud Rheoliadau 2024 yn cael unrhyw effaith ar gystadleurwydd busnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol.

## 10. Asesu ar ôl gweithredu

10.1 Caiff y rheoliadau sy'n rheoli'r system cymorth i fyfyrwyr eu diwygio'n flynyddol. Maent hefyd yn destun adolygiad manwl yn gyson gan swyddogion polisi a phartneriaid cyflenwi wrth iddynt roi’r rheoliadau ar waith.